Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Pencoed
# The Old Clinic
# Penprysg Road
# Pencoed
# CF35 6SS

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2015**

## Cyd-destun

Mae`r Cylch Meithrin wedi ei leoli mewn adeilad sydd wedi`i hadnewyddu`n ddiweddar ym Mhencoed. Tref fechan yw Pencoed rhyw bedair milltir o Benybont ar Ogwr. Mae'r lleoliad yn aelod cofrestredig o'r Mudiad Meithrin sy`n darparu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant ym Mhencoed a'r pentrefi cyfagos. Mae'r lleoliad ar agor ar bum bore`r wythnos rhwng 9.15 y.b. a 1.15.y.p. am 39 wythnos y flwyddyn.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 36 o blant ym mhob sesiwn. Ar hyn o bryd mae 68 o blant rhwng dwy a phedair oed ar y gofrestr, ac o'r rhain mae 31 yn dair oed gyda 20 yn cael eu hariannu. Yn ystod yr arolygiad roedd 17 o blant tair oed yn bresennol, ac 14 ohonynt wedi eu hariannu.

Daw bron pob plentyn o gartrefi â`r Saesneg fel iaith y cartref, er bod tua hanner yn dod o gartrefi lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg. Ychydig iawn o blant sydd wedi`u nodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae 5 aelod o staff llawn amser. Mae gan bob un gymwysterau a phrofiad addas o weithio gyda phlant ifanc. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd am nifer o flynyddoedd.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygydd Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru AGGCC ym Mawrth 2015 ac ym Mai 2009 gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae`r holl blant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn y lleoliad ac yn cyflawni`n dda
- Mae medrau rhan fwyaf o`r plant yn yr iaith Gymraeg yn datblygu`n dda
- Mae`r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth eang o brofiadau dysgu cyffrous ar gyfer y plant
- Mae cyfleoedd da yn cael eu darparu i`r plant ddatblygu eu hunan-hyder a`u hannibyniaeth
- Mae gan yr holl blant agwedd dda at ddysgu
- Mae ansawdd y berthynas rhwng ymarferwyr a phlant yn ragorol ac wedi`i selio ar gyd-hoffter a pharch
- Mae trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau lles plant
- Mae`r lleoliad yn gymuned ofalgar a chefnogol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae`r arweinydd yn canolbwyntio`n gryf ar sicrhau bod yr holl blant yn cyflwani`r safonau uchaf posibl
- Mae`r holl ymarferwyr yn cyd-weithio`n dda gyda`i gilydd gyda synnwyr o ddiben
- Mae`r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o hyfforddiant a chyngor i wella`r profiadau dysgu sy`n cael eu cynnig i`r plant
- Mae`r pwyllgor rheoli`n gefnogol iawn o`r lleoliad
- Mae`r cyllid yn cael ei reoli`n dda ac mae`r lleoliad yn darparu gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Cynnal y safonau presennol a`u gwella lle`n bosib

A2 Defnyddio canlyniadau`r asesu wrth gynllunio er mwyn sicrhau bod y tasgau`n cyfateb i allu`r plant ac yn eu herio

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad ac yn cyflawni'n dda. Mae`r plant hyn yn cofio`u dysgu blaenorol yn dda ac yn datblygu sgiliau meddwl dychmygus sy`n eu galluogi i fynd i'r afael â phroblemau ac i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd newydd.

Mae'r holl blant yn gwrando'n dda ac yn awyddus i ymateb. Yn ystod amser cylch mae`r plant yn gwrando'n astud ar gwestiynau sy`n cael eu gofyn gan ymarferwyr ac yn ymateb yn briodol yn yr iaith Gymraeg. Mae sgiliau iaith Gymraeg bron pob plentyn yn datblygu'n dda. Mae ychydig o blant yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn annibynnol.

Mae gan y mwyafrif o blant eirfa sylfaenol da gan ateb cwestiynau sy`n cael eu gofyn gan y staff, gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg. Mae bron pob plentyn yn ymuno'n frwdfrydig gyda chaneuon y dosbarth ac yn hoffi caneuon actol yn arbennig.

Mae`r rhan fwyaf o blant yn ddigon hyderus i ddisgrifio'r hyn maen nhw`n ei wneud, fel yn ystod gweithgareddau corfforol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn trin ystod o offer bach yn hyderus ac yn dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio creonau a phinnau ysgrifennu.

Mae llawer o blant yn mwynhau gwrando ar storïau sy'n cael eu darllen iddynt ac maen nhw`n dechrau dilyn y geiriau yn y stori. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus wrth gyfrif ac yn ei wneud yn gywir, llawer i 20, fel wrth gyfrif y nifer o blant sy`n bresennol yn ystod cofrestru. Mae gan lawer ohonynt eirfa fathemategol sy'n datblygu gan ddefnyddio termau megis "mawr" a "bach" yn eu chwarae. Maen nhw`n cyfateb siapiau yn gywir, fel wrth gyfateb siapiau tri dimensiwn, gan gynnwys trionglau, cylchoedd a sgwariau.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu`r plant (TGCh) yn datblygu'n dda ac mae nifer o blant yn dewis gweithio ar eu cyfrifiaduron mewn cyfnodau dewis rhydd. Maen nhw`n dechrau symud yr eiconau sgrîn yn briodol.

Mae'r holl blant yn mwynhau gweithgareddau corfforol yn ystod gweithgareddau dosbarth ac yn ystod chwarae rhydd y tu allan. Mae`r plant yn arddangos medrau cydbwyso da ac yn defnyddio teganau ymarfer yn hyderus.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn awyddus i gymryd rhan. Maen nhw`n hapus i gwrdd â'u ffrindiau a chwarae gyda'i gilydd, gan rannu offer a theganau. Mae`r plant yn gyfarwydd ag arferion y lleoliad ac yn gwybod beth sy`n cael eu disgwyl ganddynt gan ymddwyn yn unol â hynny.

Mae gan yr holl blant gymhelliant uchel i ddysgu ac yn dyfalbarhau ar dasgau am gyfnodau sylweddol o amser. Mae`r holl blant yn dangos agweddau da tuag at ddysgu ac yn ddysgwyr hyderus. Mae`r holl blant yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais ac yn ystyriol o eraill. Mae eu medrau personol a chymdeithasol wedi`i datblygu`n dda. Maen nhw`n rhannu ac yn cymryd cyfrifoldeb, er enghraifft, wrth dacluso ar ôl gweithgareddau.

Mae gan lawer o blant ymwybyddiaeth briodol o bwysigrwydd ymarfer corff, er enghraifft wrth ateb pan holwyd "bod ymarfer corff yn eich cadw'n heini ac yn eich gwneud yn gryf". Mae`r plant yn deall yr angen i olchi eu dwylo cyn bwyta a phwysigrwydd glanhau eu dannedd.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio ar y cyd, gan gymryd ystyriaeth dda o ddiddordebau plant. Mae'r cynllunio'n fanwl ac yn cynnwys tasgau â ffocws a darpariaeth barhaus. Mae holl feysydd cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn cael eu cynnwys wrth gynllunio gyda phwyslais priodol yn cael ei roi ar ddatblygiad medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh plant. Mae'r cynllunio'n cynnwys cyfleoedd rheolaidd i blant wneud dewisiadau a gweithio'n annibynnol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau iaith Gymraeg y plant yn dda iawn. Mae`r ymarferwyr yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn rheolaidd wrth drafod gyda'r plant. Mae`r ymarferwyr yn gwneud pob ymdrech i ddefnyddio'r iaith wrth siarad â phlant ac mae hyn yn arwain at eirfa Gymraeg y plant yn datblygu'n dda. Mae caneuon a rhigymau yn cael eu defnyddio`n dda i atgyfnerthu'r iaith ac mae arwyddion a labelu Cymraeg yn amlwg yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r lleoliad yn darparu'r plant â chyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh. Mae`r plant yn dysgu adnabod eu henwau ar eu tagiau yn yr ystafell gotiau bob bore. Maen nhw`n cael cyfleoedd i ddarllen gyda'r staff, ac mae hyn yn eu galluogi i ddechrau adnabod geiriau. Mae ffocws cryf yn cael ei roi ar ddatblygu sgiliau rhifedd plant. Mae cyfrif yn rhan annatod o weithgareddau bob dydd, boed hynny yn gyfrif y nifer o blant sy'n bresennol neu gyfrif gwrthrychau yn ystod eu gweithgareddau ffocws. Mae cyfleoedd da wedi`u cynllunio i`r plant ddatblygu eu sgiliau TGCh.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant Cymru a thraddodiadau drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a thrwy ymweld â`r ardal. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd priodol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi dysgu`r plant.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd y berthynas rhwng yr holl ymarferwyr a`r plant yn ragorol. Mae teimlad o gyd-hoffter a pharch rhwng oedolion a phlant ac mae lefel canmoladwy o hoffter yn cael ei ddangos i`r plant. Mae'r plant yn gwybod ble a phryd i geisio cymorth os oes angen.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o bob plentyn ac mae hyn yn cael ei gyflawni i raddau helaeth iawn yn ymarferol. Mae`r ymarferwyr yn darparu cefnogaeth hynod effeithiol ar gyfer plant ac mae hyn yn eu helpu i gyflawni'n dda a gwneud cynnydd cyson dda.

Nodwedd nodedig a da o`r addysgu yw bod y sesiynau yn symud ymlaen ar gyflymder bywiog da sy'n sicrhau bod y plant yn cymryd rhan weithredol ac yn llawn cymhelliant addas. Mae`r ymarferwyr yn sensitif i anghenion y plant ac yn ymyrryd yn briodol.

At ei gilydd, mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu cyfeirio gan oedolion a`u dewis gan y plentyn. Mae cyfleoedd gwerth chweil i`r plant weithio`n annibynnol a datblygu eu medrau meddwl. Mae`r ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn defnyddio cwestiynu`n bwrpasol i ymestyn medrau meddwl y plant.

Mae`r cynllunio ar gyfer dysgu`r plant yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae yna gyfleoedd dyddiol i blant ddatblygu eu sgiliau gwrando a siarad, er enghraifft yn ystod amser cylch. Mae`r plant yn cael cyfleoedd defnyddiol i edrych ar lyfrau ac i ddilyn storïau. Mae gwaith rhif yn cael ei gynnwys mewn ystod lawn o weithgareddau ac i ddatblygu iaith fathemategol y plant.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac maen nhw`n asesu a chofnodi eu cynnydd yn gywir ac yn effeithiol. Mae cofnodion gofalus yn cael eu cadw o gyflawniad plant, ac mae cofnodion o'r fath yn cael eu cadarnhau a'u dyddio a'u hychwanegu at gofnod proffil y plentyn unigol. Mae defnydd cynhyrchiol yn cael ei wneud o'r wybodaeth hon wrth gynllunio tasgau grŵp. Fodd bynnag, nid yw'r camau nesaf yn nysgu`r plant unigol yn cael eu nodi bob amser ac nid yw`r tasgau unigol bob amser yn cyfateb yn dda i allu`r plant a`u cyrhaeddiad blaenorol.

Mae rhieni`n cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant trwy gyfarfodydd anffurfiol a ffurfiol ac adroddiadau ysgrifenedig. Nodwedd arbennig o dda yw'r system ar waith i hysbysu rhieni o gynnydd eu plant a'r hyn y gallant ei wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r trefniadau ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad y plant yn cael effaith llwyddiannus ar safonau a lles y plant. Mae trefniadau effeithiol ar waith i annog plant i fwyta ac yfed yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae`r profiadau dysgu dyddiol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus. Mae amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol gwerthfawr sy'n atgyfnerthu arferion personol da. Mae`r plant yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb, i rannu ac i barchu ei gilydd. Mae hylendid personol yn amlwg wrth i`r plant olchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl bod yn y toiled.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau clir o'r plant o ran ymddygiad ac mae'r rhain yn cael eu gwireddu yn ymarferol. Mae`r plant yn gwybod y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir ac yn dysgu sut i rannu a pharchu`i gilydd. Trwy astudiaethau o`r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, er enghraifft, mae`r plant yn dysgu am bobl eraill ac mae hyn yn annog chwilfrydedd am y byd yn gyffredinol.

Mae'r lleoliad yn sefydliad diogel. Mae`r drysau ar glo bob amser ac mae`r plant yn cael eu goruchwylio'n briodol. Mae asesiadau risg yn cymryd rhan yn reolaidd. Mae`r ymarferwyr wedi mynychu cyrsiau diogelu plant perthnasol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau priodol ar waith i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan y lleoliad fynediad at wasanaethau o asiantaethau arbenigol i helpu ymarferwyr fynd i`r afael ag anghenion penodol y lleoliad.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r lleoliad yn arddangos ethos croesawgar a hapus lle mae plant yn cael eu parchu`n dda fel unigolion. Mae'r holl blant yn cael eu cyfarch yn annwyl gan ymarferwyr ac maen nhw`n ymgartrefu'n gyflym. Mae hon yn gymuned gynhwysol lle mae pob plentyn yn cael hawl gyfartal i'r holl brofiadau dysgu. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac maen nhw`n sensitif tuag atynt ac yn ymateb i'w hanghenion. Mae`r plant yn derbyn anwyldeb a chefnogaeth. Mae`r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy'n cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dealltwriaeth y plant o ymddygiad da.

Mae gan y lleoliad gyflenwad rhagorol o adnoddau dysgu o ansawdd da sy'n cael eu defnyddio'n ddychmygus i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae hyn yn cynnwys offer chwarae i annog y plant i wneud ymarfer corff ac i chwarae`n annibynnol ac mewn grwpiau. Mae ardaloedd sydd wedi`u cynllunio`n dda ar gyfer chwarae dychmygus a mannau ar gyfer tasgau â ffocws fel cyfri`r nifer o flodau sydd wedi`u casglu. Mae ardaloedd sydd wedi`u dynodi`n bwrpasol ar gyfer chwarae rôl sy'n annog y plant yn addas i feddwl yn ddychmygus ac i siarad a chwarae gyda'i gilydd. Yn gyffredinol, mae`r plant yn mwynhau`r profiadau hyn sy`n gwneud cyfraniad rhagorol a hynod effeithiol i ddysgu`r plant. Mae'r ystafelloedd o safon uchel ac mae`r lle sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio`n effeithiol i ddarparu ardaloedd dysgu i gefnogi'r addysgu. Mae'r ardal y tu allan yn hygyrch yn uniongyrchol i`r plant ac mae'n cynnwys adnoddau o ansawdd uchel ac ardaloedd o weithgareddau. Mae arddangosfeydd deniadol yn cefnogi dysgu`r plant.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff y lleoliad ei arwain a'i reoli`n dda gan arweinydd profiadol sy`n cael ei chefnogi`n effeithiol gan ei dirprwy. Mae'r staff yn gweithio'n llwyddiannus fel tîm ac mae pawb yn rhannu'r nôd o dddarparu`r ddarpariaeth orau posibl i'r plant. Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel o'i staff ac mae'r rhain yn cael eu bodloni i raddau helaeth iawn yn ymarferol. Mae'r arweinydd yn hyrwyddo ac yn cynnal gwelliant, mae`r dysgu a`r addysgu yn cael eu rheoli'n dda ac mae'r lleoliad yn dangos ymdeimlad cryf o bwrpas.

Mae`r trefniadau dyddiol yn cael eu rheoli`n dda ac mae`r sesiynau`n rhedeg yn esmwyth. Mae`r arferion wedi'u sefydlu'n dda ac mae cyfleusterau`r lleoliad a'r addysgu yn darparu amgylchedd dysgu hynod o effeithiol.

Mae cadeirydd y pwyllgor rheoli yn ymwelydd rheolaidd ac yn rhoi cymorth da i'r lleoliad. Mae'r pwyllgor rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn wybodus iawn am waith y lleoliad.

Mae`r prosesau rheoli perfformiad yn eu lle ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr ac mae hyn yn gysylltiedig â hyfforddiant penodol er mwyn i ymarferwyr gyflawni eu gwaith yn effeithiol a sicrhau eu datblygiad proffesiynol.

Caiff y lleoliad gefnogaeth dda gan y rhieni sy'n cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant.

Mae`r polisïau a`r mentrau, gan gynnwys y rhai sy'n bodloni blaenoriaethau lleol, yn cael eu gweithredu'n gyson.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o gryfderau'r lleoliad. Mae'r lleoliad wedi symud yn ddiweddar i'r safle presennol, ac yn ystod y cyfnod hwn mae'r arweinydd wedi ymdrin yn llwyddiannus â meysydd i'w gwella, ac o ganlyniad, mae`r ddarpariaeth gyfredol o ansawdd da. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad plant a'u safonau a lles.

Mae'r hunanarfarnu wedi cael ei wneud ar y cyd â staff a swyddog cefnogi`r awdurdod lleol. Mae'n gofnod manwl a chlir o ddarpariaeth y lleoliad a chyflawniad y plant. Mae'r arweinydd yn monitro darpariaeth briodol drwy arsylwadau, adolygu gwaith y plant a thrafod yn rheolaidd gyda'i thîm. Ceisir barn rhieni drwy holiaduron a thrafodaeth.

Mae'r cynllun gwella yn realistig ac yn seiliedig ar ganlyniadau'r hunanwerthuso.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod addas o bartneriaethau sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer y plant.

Mae`r bartneriaeth gyda'r rhieni yn effeithiol iawn. Mae`r rhieni yn gwerthfawrogi'r gofal a phryder sy`n cael eu dangos gan ymarferwyr ac yn falch o'r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud. Mae'r lleoliad yn annog rhieni i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plant drwy roi syniadau i'w defnyddio gartref. Mae rhieni hefyd yn cael eu hysbysu o eirfa Gymeig gyfredol a brawddeg yr wythnos.

Mae partneriaethau gyda'r ysgolion cynradd lleol yn fwy amrywiol. Ar eu gorau mae`r cysylltiadau hyn yn dda ac fe ddaw'r plant i adnabod eu hathrawes nesaf ac ymuno mewn rhai o weithgareddau`r ysgol. Fodd bynnag, oherwydd y nifer o ysgolion bwydo sy`n bodoli, nid yw trefniadau o'r fath bob amser yn bosibl.

Ceir partneriaethau buddiol gyda chyrff proffesiynol lleol fel cefnogaeth therapydd arbenigol, ac mae`r cyngor gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol wedi bod yn

fuddiol ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y lleoliad.  Mae`r gefnogaeth gan swyddog datblygu Mudiad Meithrin wedi helpu gyda datblygiad yr iaith Gymraeg.

Mae ymwelwyr â'r lleoliad, fel y deintydd lleol ac ymweliadau â'r siopau a'r llyfrgell, yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth y plant o'u cymuned.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli'n dda a'u defnyddio'n effeithiol.  Mae`r lefelau staffio yn briodol ac mae gan ymarferwyr gymwysterau a phrofiad da i ddatblygu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Mae`r ymarferwyr yn sicrhau lles a datblygiad y plant yn effeithiol. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod staff yn cael eu defnyddio'n dda ac yn cael amser priodol i ddatblygu eu cyfrifoldebau.  Mae`r adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n briodol.

Mae'r adeilad mewn cyflwr da iawn ac yn cael ei chynnal yn dda.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r cyllid ac mae`r penderfyniadau gwariant yn cael eu blaenoriaethu yn unol ag anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd effeithlon o arian sy`n cael eu godi gan rieni.

O ystyried y defnydd effeithlon o arian a'r deilliannau sy`n cael eu cyflawni gan y plant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

*Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'ngryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'ngryf | Don't know Ddimyngwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | Rwy'nfodlonâ'rlleoliadyngyffredinol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 11 | 10 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fymhlentynynhoffi'rlleoliadhwn. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cafoddfymhlentyngymorthi ymgartrefu'ndda pan ddechreuoddyn y lleoliad. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 1 | Mae fymhlentynyngwneudcynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae plant ynymddwynynddayn y lleoliad. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 28% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 11 | 10 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'raddysguynddda. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 10 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yntrinpobplentynyndeg a gydapharch. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Caifffymhlentyneiannogifod yniach ac iwneudymarfercorffynrheolaidd. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fymhlentynynddiogelyn y lleoliad. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 9 | 7 | 2 | 0 | 0 | 2 | Mae fymhlentynyncaelcymorthychwanegolpriodolmewnperthynasagunrhywanghenionunigolpenodol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 28% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed | 10 | 5 | 5 | 0 | 0 | 1 | Rwy'ncaelgwybodaethgyso |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'ngryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'ngryf | Don't know Ddimyngwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| about my child’s progress. | | 50% | 50% | 0% | 0% | | n am gynnyddfymhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 6% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | Rwy'nteimlo’ngysurusynglŷn â gofyncwestiwni'rlleoliad, gwneudawgrymiadauneunodi problem. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'ndeallltrefn y lleoliadargyferdelio â chwynion. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae fymhlentynwedi'ibaratoi'nddaargyfersymudymlaeni'rysgol. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 10 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaethdda o weithgareddau, gangynnwysteithiauneuymweliadau. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'rlleoliadyncaeleiredegyndda. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |